Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/VG/2496/18

Bethan Sayed AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11Gorffennaf 2018

Annwyl Bethan,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch cwestiwn yn y cyfarfod llawn ar 26 Mehefin ynghylch Gordal Iechyd Mewnfudo y DU (IHS). Gwnaethoch ymholiad ynghylch rhoi Deddf Mewnfudo 2014 ar waith, gan gyfeirio'n arbennig at y gordal gofal iechyd a delir fel rhan o gais am fisa. Mae hwn yn un o ofynion y broses fewnfudo ac mae'n rhoi'r hawl i daledigion gael mynediad i'r GIG ar yr un sail â dinesydd yn y DU.

Mae Deddf Mewnfudo 2014 yn gymwys Iedled y DU, ac ers 2014 mae wedi rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu i dâl gael ei orfodi ar bersonau sy'n gwneud cais am ganiatâd mewnfudo. Rhoes Gorchymyn Mewnfudo (Tâl Iechyd) 2015 y drefn ar gyfer codi tâl ar waith ac mae'n pennu union swm yr IHS. Bu'r IHS ar waith i bobl sy'n dod i'r DU ar ymweliad â therfyn amser ers 2015.

Ar 5 Chwefror 2018, dywedodd y Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo wrthyf am fwriad Llywodraeth y DU i gynyddu swm yr IHS o £200 i £400 ar gyfer y mwyafrif o gategorïau ymwelwyr dros dro ac o £150 to £300 i fyfyrwyr a'r categori symudedd Ieuenctid. Roedd y cynnydd yn seiliedig ar amcangyfrif yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o gost flynyddol gyfartalog y defnydd o'r GIG gan y rhai sy'n talu'r gordal, sef £470 y flwyddyn yn ôl eu hamcangyfrif. Bydd Llywodraeth y DU yn gwneud y newid hwn trwy ddiwygio Gorchymyn Mewnfudo (Tâl Iechyd) 2015.

Amcangyfrifodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y gallai dyblu'r IHS gynhyrchu £220 yn ychwanegol y flwyddyn i'r GIG tuag at gost defnydd gan daledigion. Rwyf wedi cael sicrwydd y câi cronfeydd ychwanegol eu dyrannu i Lywodraeth Cymru trwy Fformiwla Barnett i dalu'r costau i GIG Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mater heb ei ddatganoli yw mewnfudo a bydd unrhyw newidiadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r IHS yn gymwys ledled y DU. Ymatebais i'r Gweinidog Gwladol dros Fewnfudo yn nodi'r rhesymau dros y cynnig a symiau canlyniadol Barnett a fydd yn deillio ohonynt.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services